# Geirfa Allweddol

**Agnostig** -person sydd ddim yn siŵr a oes Duw neu beidio.
**Ail-eni** -y gred mewn Bwdhaeth bod ynni'r bywyd yma yn effeithio ar y nesaf. Nid yw'r Bwdhydd yn credu mewn enaid ac felly mae'n wahanol i ymgnawdoliad.
**Ail-genhedliad** -y gred bod yr enaid yn symud i gorff newydd ar ôl marwolaeth.
**Amlosgi** -llosgi corff y sawl a fu farw.
**Anffyddiwr** -person sy'n sicr nad oes yna Dduw.
**Angladd** -seremoni i gofio am y sawl a fu farw.
**Atgyfodiad** -Dod yn ôl yn fyw.
**Atma** -y sbarc dwyfol sydd ym mhopeth byw.
**Atman** -yr enaid mewn Hindŵaeth.
**Bardo** -y cyfnodau rhwng marwolaeth ac ail-eni ym Mwdhaeth Tibet
**Brahman** -yr ysbryd goruchaf sydd ym mhopeth byw.
**Bwdhaeth Mahayana** -Yr ail brif draddodiad Bwdhaidd sy'n cael ei arfer yn bennaf mewn gwledydd fel Tseina, Tibet, Japan, a Korea.
**Bwdhaeth Terevada** -Y traddodiad Bwdhaidd hynaf sy'n cael ei arfer yn bennaf mewn gwledydd fel Sri Lanka, Myanmar, Thailand, Cambodia, a Laos.
**Claddedigaeth awyr (sky-burial)** -defod mewn Bwdhaeth Tibetaidd lle mae corff marw yn cael ei fwydo i fwlturiaid.
**Claddu** -gosod corff y sawl a fu farw yn y ddaear.
**Crefyddau'r Dwyrain** -Bwdhaeth, Hindŵaeth a Sikhiaeth
**Crefyddau'r Gorllewin** -Cristnogaeth, Islam ag Iddewiaeth
**Croeshoeliad** -Rhoddwyd Iesu ar y groes ac fe'i lladdwyd.
**Cwestiwn eithaf** -ccwestiwn athronyddol mawr nad oedd ateb perffaith iddo.
**Dharma** -dyletswydd mewn Hindŵaeth.
**Edifarhau** -Gwneud iawn.
**Enaid** -rhan ysbrydol person neu anifail
**Galaru** -y teimlad o dristwch ar ôl colli rhywun agos.
**Genesis** -Llyfr yn y Beibl.
**Karma** -gweithredoedd person, da neu ddrwg, yn y bywyd cynt sy'n penderfynu ei ffurf yn y presennol
**Llwybr Wythplyg** -y llwybr mewn Bwdhaeth i dorri cylch samsara a chyrraedd goleuedigaeth. Mae'n cynnwys wyth arferiad.
**Llyfr Meirw Tibet** -Llyfr sy'n arwain Bwdhyddion Tibetaidd trwy gyfnod y bardo – y cyfnod rhwng marwolaeth ac ail-eni.
**Meseia** -Ffigwr crefyddol pwysig yn dychwelyd.
**Mitzvot** -Rheolau.
**Moksha** -cyflwr mewn Hindŵaeth lle mae cylch samsara wedi ei dorri a'r enaid un ai wedi ail-ymuno â Brahman neu yn ei bresenoldeb fel duw personol.
**Monotheistiaeth** -Credu mewn un Duw yn unig.
**Mukti** -y cyflwr mewn Sikhaeth o fod wedi torri cylch samsara.
**Narak** -teyrnas tebyg i uffern mewn Hindŵaeth.
**Nefoedd** -Ymuno â Duw ar ôl marwolaeth.
**Nirfana/goleuedigaeth** -cyrraedd y stad yma sy'n torri cylch samsara. Y Bwdha oedd yr un cyntaf i gyrraedd y cyflwr.
**Olam Ba-Ha** -Y syniad o Nefoedd mewn Iddewiaeth.
**Olwyn Fywyd Tibet** -symbol o'r hyn mae Bwdhyddion yn ei gredu am gylch bodolaeth.
**Samsara** -cylch bywyd, marwolaeth ac ail-eni
**Seciwlar** -rhywbeth sydd ddim yn cynnwys elfennau crefyddol.
**Sheol** -Lleoliad lle credai Iddewon yr anfonir y meirw.
**Swarg** -teyrnas debyg i nefoedd mewn Hindŵaeth.
**Teyrnged** -geiriau i gofio'r sawl a fu farw.
**Tragwyddol** -Am byth.
**Uffern** -Gwagle o unrhyw bresenoldeb Duw ar ôl marwolaeth.
**Undduwiaeth** -Dim ond credu mewn un Duw.
**Waheguru** -enw Duw mewn Sikhaeth.